

Kirsty Williams AC/AM  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf: MA/KW/2645/20

David Jones OBE, DL  
Cadeirydd Cymwysterau Cymru

[dbj1962@gmail.com](mailto:dbj1962@gmail.com);

Philip Blaker,  
Prif Swyddog Gweithredol, Cymwysterau Cymru  
Adeilad Q2, Lôn Pencarn,  
Casnewydd  
NP10 8UH

[philip.blaker@qualificationswales.org](mailto:philip.blaker@qualificationswales.org)

14 Awst 2020

Annwyl Philip a David

Rwy'n ddiolchgar am y cymorth a'r cyngor rydych chi a'ch swyddogion yn parhau i'w rhoi imi ac rwy'n cydnabod yr heriau penodol a'r pwysau ychwanegol rydych chi wedi eu hwynebu yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Fel y dywedais o'r blaen, rwy'n hyderus bod y camau rydych chi wedi eu cymryd a'r trefniadau rydych chi wedi eu datblygu a'u goruchwyllo ar gyfer dyfarnu graddau yr haf hwn, mewn amgylchiadau digynsail, yn darparu dull cadarn a theg i'n dysgwyr allu symud ymlaen i'r dyfodol.

Fodd bynnag, yn sgil datblygiadau cyflym mewn rhannau eraill o'r DU yn ystod y diwrnodau diwethaf, credaf ei bod yn angenrheidiol cymryd camau pellach i sicrhau nad yw dysgwyr yng Nghymru o dan anfantais yn sgil addasiadau a wnaed mewn manau eraill. Mae hyn yn arbennig o bwysig i ddysgwyr sy'n ceisio cael mynediad i brifysgolion eleni.

Felly, ysgrifennaf atoch i ddarparu adendwm i'r Cyfarwyddyd a ddyroddais ichi ar 6 Ebrill o dan Adran 53 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 i roi sylw i bolisi Gweinidogion Cymru ynghylch canslo arholiadau a phenderfynu ar raddau wedi hynny, Mae'r adendwm hwn (a ddyroddir hefyd o dan adran 53) yn adlewyrchu'r dull polisi diwygiedig y credwn sy'n angenrheidiol i sicrhau nad yw dysgwyr yng Nghymru o dan anfantais gan newidiadau a wnaed i drefniadau mewn rhannau eraill o'r DU.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf hefyd wedi gofyn ichi ystyried cyfleoedd i ehangu'r broses apelio, a deallaf eich bod yn cydweithio'n agos â rheoleiddwyr eraill i ddeall y newidiadau y maent yn eu hystyried. Yn dilyn eich cyngor ar y mater hwn ac unrhyw newidiadau rydych yn eu cynnig, byddaf yn ystyried a ddylid gwneud Cyfarwyddyd ychwanegol i'ch helpu i gymryd y camau ymarferol angenrheidiol i weithredu unrhyw ddiwygiadau i'r broses apelio.

Rwy'n hyderus, drwy barhau i gydweithio'n agos, y gallwn gynnal cadernid a hygrededd ein system gymwysterau, gan ddarparu'r dull gweithredu tecaf i'n dysgwyr ar yr un pryd, i sicrhau nad ydynt o dan anfantais yn sgil amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams'.

**Kirsty Williams AC/AM**

Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

**ADENDWM O DAN ADRAN 53 O DDEDDF CYMWYSTERAU CYMRU 2015 I  
GYFARWYDDYD WG20-17 A WNAED O DAN YR ADRAN HONNO AC A  
DDYRODDWYD AR 06/04/2020**

O dan adran 53 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw i'r agweddau hynny o bolisi llywodraeth ag y caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo.

Dyroddwyd Cyfarwyddwyd i Gymwysterau Cymru gan y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru, ar 6 Ebrill ynghylch polisi Llywodraeth Cymru y dylid rhoi canlyniadau i garfan haf 2020 dysgwyr TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru yr haf hwn yn dilyn canslo cyfres arholiadau'r haf.

Gwnaed datganiad polisi ynghylch y trefniadau i gyfrifo graddau a dyfarniadau ar 12 Awst gan y Gweinidog Addysg ac mae ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: <https://llyw.cymru/y-gweinidog-addysg-yn-gwarantu-na-all-gradd-safon-uwch-derfynol-dysgwr-fod-yn-nai-radd-ug>

Gwnaed y datganiad polisi hwn i sicrhau nad yw dysgwyr Cymru o dan anfantais mewn perthynas â dysgwyr eraill mewn rhannau eraill o'r DU yn dilyn newidiadau a gyhoeddwyd i gyfrifo graddau mewn manau eraill o'r DU.

Yn unol â hynny, mae'r Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru, yn cyfarwyddo Cymwysterau Cymru i roi sylw i'r materion a ganlyn (sy'n diweddarar'r Cyfarwyddwyd a ddyroddwyd ar 6 Ebrill):

- polisi Llywodraeth Cymru na fydd gradd Safon Uwch terfynol dysgwr yn ystod haf 2020 yn is na'i radd UG. Rhaid i Gymwysterau Cymru sicrhau bod graddau a gyfrifwyd cyn i'r penderfyniad polisi hwn gael ei wneud ac sy'n is na gradd UG y dysgwr yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r radd a gafodd y dysgwr ar lefel UG a rhoi dyfarniad newydd cyn gynted ag y bo'n bosibl;
- polisi Llywodraeth Cymru y dylid ystyried diwygio neu ehangu'r broses apelio, gan ystyried y newidiadau sy'n cael eu harchwilio gan reoleiddwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, gyda'r nod o sicrhau nad yw dysgwyr Cymru yn cael eu rhoi o dan anfantais mewn perthynas â dysgwyr yn yr awdurdodaethau hynny.